# Cymeriadau Difyr




| Llyfr / Agwedd: | **Y Picnic**<br>**(Trafod ffracsiynau yng nghyd-destun picnic.)** |
|---|---|
| Adnoddau: | • Eitemau bwyd picnic (e.e. pitsa, ffrwythau, brechdanau...).<br>• Matiau neu siartiau ffracsiynau i helpu dysgwyr i ddelweddu ffracsiynau.<br>• Cardiau tasg gyda heriau ffracsiynau (e.e., ‘Torrwch y pitsa hwn yn chwarteri’).<br>• Basgedi picnic, platiau, a chyllyll a ffyrc ar gyfer gosodiad realistig.<br>• Bwydlenni caffi bach yn rhestru ffracsiynau o'r eitemau bwyd sydd ar gael – *gweler y ddogfen ‘Picnic – bwydlenni’.* |
| Camau: | Nod: Adnabod a deall ffracsiynau yng nghyd-destun bwyd a rhannu gan ddefnyddio haneri, chwarteri a thraean i rannu gwahanol eitemau picnic.<br><br>Crëwch leoliad picnic lle mae dysgwyr yn rhannu eitemau bwyd gan ddefnyddio ffracsiynau. Darparwch blatiau neu fwyd chwarae y gellir ei rannu'n gorfforol yn rhannau cyfartal (e.e. pitsas papur, brechdanau tegan, ffrwythau go iawn ayyb).<br><br>Rolau:<br>Mae rhai plant yn gweithredu fel gwesteiwyr picnic ac yn gyfrifol am rannu bwyd yn deg.<br><br>Mae eraill yn cymryd rôl gwesteion sy'n gofyn am wahanol ddognau o fwyd.<br><br>**Cam 1**<br>Rhowch eitemau bwyd cyfan i’r plant (fel pitsas papur, ffrwythau go iawn, neu frechdanau chwarae) a heriwch nhw i’w rhannu’n deg:<br><br>‘Allwch chi dorri'r pitsa yn chwarteri?’<br><br>‘Os yw tri o bobl yn rhannu'r frechdan hon yn gyfartal, faint o ddarnau mae pob un yn ei gael?’<br><br>**Cam 2**<br>Sefydlwch gaffi picnic lle mae plant yn archebu eitemau gan ddefnyddio ffracsiynau. Gellid defnyddio bwydlenni - *gweler y ddogfen ‘Picnic –bwydlenni’.*<br><br>‘Rydw i eisiau hanner cacen a chwarter afal.’<br><br>Yna mae'r plant yn torri neu'n rhannu'r eitemau yn gywir i gyd-fynd â'u harchebion. |






| | |
|---|---|
| | **<u>Cam 3</u>**<br>Rhowch broblemau geiriol yn seiliedig ar rannu picnic:<br>‘Mae yna 4 o blant yn rhannu un melon. Sawl darn cyfartal ddylen nhw ei gael?’<br>‘Os ydyn ni'n torri brechdan yn 4 darn a dim ond yn bwyta 3, faint sydd ar ôl?’<br><br>**<u>Cam 4</u>**<br>Gofynnwch i’r plant edrych ar wahanol eitemau picnic a chymharu eu ffracsiynau:<br>‘Pa un sydd fwyaf: hanner pitsa neu chwarter cacen?’<br>‘Allwch chi wneud pryd cyfan gan ddefnyddio dau hanner?’ |
| Cwestiynu: | • Allwch chi dorri'r pitsa yn chwarteri?<br>• Os yw tri o bobl yn rhannu'r frechdan hon yn gyfartal, faint o ddarnau mae pob un yn ei gael?<br>• Mae yna 4 o blant yn rhannu un melon. Sawl darn cyfartal ddylen nhw ei gael?<br>• Os ydyn ni'n torri brechdan yn 4 darn a dim ond yn bwyta 3, faint sydd ar ôl?<br>• Pa un sydd fwyaf: hanner pitsa neu chwarter cacen?<br>• Allwch chi wneud pryd cyfan gan ddefnyddio dau hanner? |
| Beth nesaf? | Iechyd a Lles: Trafod deiet gytbwys a meintiau dognau o fwyd. |



Peniarth .cymru

adnodd
yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru
supporting the Curriculum for Wales